# Eribulin ar gyfer trin canser y fron sy'n ddatblygedig yn lleol neu'n fetastatig ar ôl cael 2 fath o gemotherapi neu fwy

21 Rhagfyr 2016

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Argymhellir eribulin (Halaven). Mae'n driniaeth bosibl ar gyfer oedolion â chanser y fron sy'n ddatblygedig yn lleol neu'n fetastatig os ydynt wedi cael 2 fath o gemotherapi neu fwy.

### Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os oes gennych ganser y fron sy'n ddatblygedig yn lleol neu'n fetastatig, a bod eich meddyg yn credu mai eribulin yw'r driniaeth gywir, dylech allu cael y driniaeth ar y GIG.

Os nad ydych yn gymwys i gael y driniaeth a ddisgrifir uchod, dylech allu parhau i gymryd eribulin nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ei bod yn iawn i chi roi'r gorau i'w gymryd.

### Y cyflwr a'r driniaeth

Gelwir canser y fron sydd wedi lledaenu i'r meinwe o'i amgylch a rhannau eraill o'r corff yn ganser datblygedig yn lleol neu'n ganser metastatig y fron.

Mae eribulin yn gyffur sy'n atal y celloedd canser rhag tyfu.

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Breast Cancer Now, 0333 2070 300
- Gofal Canser y Fron, 0808 800 6000
- Breast Cancer UK, 0845 680 1322
- Cymorth Canser Macmillan, 0800 808 0000

- Gwybodaeth i Gleifion Ymchwil Canser y DU (CancerHelp UK yn flaenorol), 0808 800 4040

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2320-5